

YMDDIRIEDOLWYR
A LLYWODRAETHU

Yr Ymddiriedolwyr Hanfodol

Cyflwyniad

COMISIWN ELUSENNAU

Croeso gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr y Comisiwn Elusennau

Mae'n debyg eich bod yn darllen hwn oherwydd eich bod newydd ymgymryd â swydd ymddiriedolwr, neu rydych ar fin bod yn ymddiriedolwr elusen. Os felly, croeso i chi a llongyfarchiadau. Bydd eich sgiliau a'ch egni yn helpu gwneud gwahaniaeth i'r elusen o'ch dewis. Byddwch yn gyfrifol am nod a chyfeiriad yr elusen, ei heiddo, ei chyllid a chyflogi unrhyw staff neu wirfoddolwyr. Heb ymddiriedolwyr da ac ymroddedig, ni all unrhyw elusen obeithio llwyddo.

Hoffem ddymuno'n dda i chi fel ymddiriedolwr, gan obeithio y byddwch yn cael gwir foddhad o wneud cyfraniad at gymdeithas. Mae'r Comisiwn Elusennau'n bodoli i reoleiddio elusennau a diogelu eu henw da. Rydym yma i helpu a chynghori chi a'ch cydweithwyr.

Mae'r canllaw hwn yn grynodeb o'ch cyfrifoldebau a dyletswyddau newydd, a hefyd sut y gallwch gael cymorth a chefnogaeth gennym ni a sefydliadau eraill.

Yn y canllaw hwn, pan ddefnyddiwn 'rhaid' golygwn ei fod yn ofyniad cyfreithiol neu reoleiddio penodol sy'n effeithio ar ymddiriedolwyr neu elusen. Er mwyn eich helpu adnabod gofyniad cyfreithiol neu reoleiddio defnyddiwyd y symbol **C**. Defnyddiwn 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n cael eu hystyried yn arfer da lleiaf, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol penodol ar eu cyfer. Dylai ymddiriedolwyr ddilyn y canllaw arfer da oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Y Fonesig Suzi Leather **Cadeirydd**
Andrew Hind **Prif Weithredwr**

Pwy yw ymddiriedolwyr elusennau?

Ymddiriedolwyr elusennau yw'r bobl sy'n ffurfio corff llywodraethu elusen. Gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau bwrdd, llywodraethwyr neu aelodau pwyllgor. Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am reoli gweinyddiad elusen. Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolwyr yn gwasanaethu fel gwirfoddolwyr, ac nid ydynt yn cael unrhyw dâl (heblaw ad-dalu treuliau parod angenrheidiol a dalwyd). Dylai ymddiriedolwyr gydweithio fel tîm, a bod yn gyfrifol ar y cyd am eu helusen.

Gall swydd ymddiriedolwr fod yn waith caled, ond trwy gyfrannu dylech elwa hefyd. Dylai swydd ymddiriedolwr gynnig boddhad a chyfleoedd am ddatblygiad personol. Wrth i chi ddefnyddio eich sgiliau i redeg eich elusen, byddwch chi'n ennill sgiliau a phrofiad newydd yr un pryd.

Beth yw dyletswyddau ymddiriedolwyr?

Mae gan ymddiriedolwyr, ac mae'n rhaid i ymddiriedolwyr dderbyn y prif gyfrifoldeb am gyfeirio materion eu helusen, a sicrhau ei bod yn ddiddyled, yn cael ei gweinyddu'n dda, ac yn cyflawni canlyniadau elusennol er budd y cyhoedd y cafodd ei sefydlu ar ei gyfer. Rhaid i chi gadw'r meysydd cyfrifoldeb canlynol mewn cof.

C **Sicrhau cydymffurfiaeth** – Rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau bod eu helusen yn cydymffurfio â'r canlynol:

- Y gyfraith elusennau, a gofynion y Comisiwn Elusennau fel rheolydd; yn arbennig, rhaid i chi sicrhau fod yr elusen yn paratoi adroddiadau ar ei gwaith, a'i bod yn cyflwyno Ffurflenni Blynyddol a chyfrifon fel sy'n ofynnol yn unol â'r gyfraith. Cewch fwy o wybodaeth yn ein cyhoeddiad *Nodweddion Elusen Effeithiol* (CC60).
- Mae'r gofynion neu'r rheolau, a'r dibenion ac amcanion elusennol wedi'u pennu yn nogfen lywodraethol yr elusen. Dylai pob ymddiriedolwr gael copi o'r ddogfen hon, a bod yn gyfarwydd â'r ddogfen.
- Gofynion deddfwriaeth arall a rheolyddion eraill (os oes) sy'n llywio gweithgareddau'r elusen; byddant yn amrywio yn ôl y math o waith y mae'r elusen yn ymgymryd ag ef, ac ydy'r elusen yn cyflogi staff neu wirfoddolwyr.
- Y gofyniad i ymddiriedolwyr weithredu gydag unplygrwydd, ac osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau personol neu gamddefnyddio arian neu asedau'r elusen. Dylech gyfeirio at ddogfen lywodraethol yr elusen am ddarpariaethau sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau ac fe gewch mwy o wybodaeth yn ein canllaw ar y we ar wrthdaro buddiannau ac yn ein cyhoeddiad *Talu Ymddiriedolwyr Elusennau* (CC11).

C Dyletswydd pwyll – Rhaid i ymddiriedolwyr:

- Sicrhau bod yr elusen a bydd yr elusen yn parhau i fod yn ddiddyled; mae hyn yn golygu bod angen i chi wybod am weithgareddau a sefyllfa ariannol yr elusen.
- Defnyddio arian ac asedau elusennol yn ddoeth, a dim ond er mwyn hybu dibenion a buddiannau'r elusen.
- Osgoi ymgymryd â gweithgareddau a allai beryglu'n ormodol eiddo, arian, asedau neu enw da'r elusen.
- Bod yn arbennig o ofalus wrth fuddsoddi arian yr elusen, neu fenthyca arian i'r elusen ei ddefnyddio.

C Dyletswydd gofal – Rhaid i ymddiriedolwyr:

- Ddefnyddio gofal a medr rhesymol fel ymddiriedolwyr, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad personol er mwyn sicrhau bod yr elusen yn cael ei gweinyddu'n dda ac yn effeithlon.
- Ystyried ceisio cyngor proffesiynol allanol ar bob mater os oes perygl sylweddol posib i'r elusen, neu os yw'r ymddiriedolwyr yn gweithredu'n groeso i'w dyletswyddau.

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn briodol, dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn gwybod beth mae'r elusen yn ei wneud. Dylech roi digon o amser ac egni i fusnes yr elusen, a chwrdd yn ddigon aml i wneud y penderfyniadau y mae angen eu gwneud. Bydd hyn yn amrywio rhwng gwahanol fathau a meintiau o elusennau yn dibynnu ar eu math a'u maint.

Beth yw'r Comisiwn Elusennau?

Y Comisiwn Elusennau yw'r rheolydd elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr. Ein gwaith yw gweithio gydag elusennau er mwyn sicrhau eu bod yn atebol, yn cael eu gweinyddu'n dda ac yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol. Hefyd ceisiwn hybu ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau. Rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda ni, ond nid oes rhaid i rai mathau o elusennau gofrestru gyda ni. Darparwn ystod eang o gyngor ac arweiniad i elusennau. Rydym yn cynhyrchu taflen newyddion ddwywaith y flwyddyn sy'n cael ei hanfon i bob elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr ac yn cynnig nifer o wasanaethau ar-lein trwy ein gwefan www.charitycommission.gov.uk. Gallwch ddarllen a llwytho i lawr unrhyw un o'n cyhoeddiadau a chanllawiau o'n gwefan hefyd.

Beth sy'n digwydd os yw pethau'n mynd o'i le

Cynigiwn wybodaeth a chyngor i elusennau ar ofynion cyfreithiol ac arferion gorau i'w cynorthwyo i weithredu mor effeithiol â phosib ac atal problemau rhag codi. Yn yr achosion prin iawn lle mae problemau difrifol yn codi, mae pwerau eang gennym i'w hystyried a'u datrys. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau a dogfen lywodraethol yr elusen, gall ymddiriedolwyr fod yn atebol yn bersonol am unrhyw ddyledion neu golledion y mae'r elusen yn eu hwynebu. Fodd bynnag, mae atebolrwydd personol o'r fath yn brin, ac yn gyffredinol bydd ymddiriedolwyr sydd wedi dilyn y gofynion sydd wedi'u crynhoi yn y canllaw hwn wedi'u diogelu.

Ble galla i gael mwy o wybodaeth?

Crynodeb o gyfrifoldebau a dyletswyddau ymddiriedolwyr yw hwn a chewch fwy o wybodaeth yn *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod* (CC3), sy'n cynnwys mwy o wybodaeth fanwl. I gael copi o hwn neu unrhyw un o'n cyhoeddiadau eraill, gallwch:

- edrych arnynt a'u hargraffu o'n gwefan www.charitycommission.gov.uk
- archebu yn ystod oriau agor - Llun to Gwener 08:00-20:00 a 09:00-13:00 Sadwrn - trwy ein ffonio ni ar **0845 300 0218**; neu
- ysgrifennu at y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, Blwch SP 1227, Lerpwl, L69 3UG.

Am restr lawn gweler adran Gyhoeddiadau ein gwefan neu *Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau* (CC1).

Yn ogystal â'r canllawiau a gynhyrchwn, mae nifer o adnoddau eraill y gall ymddiriedolwyr eu defnyddio i'w helpu cyflawni eu dyletswyddau. Fe'ch anogir i ddefnyddio'r ystod eang o sefydliadau sy'n gallu'ch helpu rhedeg eich elusen mor effeithiol â phosib. Mae manylion rhai o'r sefydliadau wedi'u rhestru yn *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod*. Hefyd cewch fanylion am ffynonellau gwybodaeth eraill yn 'Cysylltiadau defnyddiol' ar hafan ein gwefan.

Mae'r canllaw ar gael mewn fformat sain ac yn Gymraeg hefyd. Mae hefyd ar gael mewn Braille ac mewn print bras ar gais.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i argraffu ar bapur sy'n dod o adnoddau cynaliadwy yn unig ac nid yw'n cynnwys unrhyw glorin.
Cyflenwyd gan Linney Group.
xxxxxx xx/xxxx

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Y Comisiwn Elusennau
Ffôn: 0845 300 0218
Typetalk: 0845 300 0219
Gwefan: www.charitycommission.gov.uk

Fersiwn drafft gwreiddiol gan James Tickell.

© Hawlfraint y goron 2007. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a dylid nodi teitl y cyhoeddiad.

Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Cyflwyniad. Ionawr 2007.

Dyluniwyd gan Bang-on.net ac Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau

CC3a